

NEGES GAN Y CYNGHORYDD LIZ ROBERTS

Hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i drigolion Dolwyddelan ynghyd â Betws y Coed, Capel Curig a rŵan Trefriw am bleidleisio drosta i i wasanaethu'r pedair cymuned am dymor arall. Mae'n anrhydedd o'r mwyaf imi ymgymryd â'r swydd hon a dim ond drwy gydweithio y gallwn ni gyflawni ein hamcanion. Mae eich cefnogaeth yn amhrisiadwy.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru, yn eu hadolygiad gyda'r Comisiwn Ffiniau, gynnwys Trefriw yn y Ward. Mae'r ardal bellach yn mynd o dop Bwlch y Gerddinen at Lyn Ogwen ac i lawr at Ddolgarrog gan gynnwys Llanrhychwyn, Geirionnydd a Cowlyd. Mae bellach yn ardal helaeth i ofalu amdani gyda'r nifer o etholwyr wedi dyblu yn y Ward. Beth sy'n amlwg ydy pa mor ffodus ydym ni i fyw mewn ardal o harddwch eithriadol a does dim syndod bod twristiaid yn heidio i'r ardal!

Rydw i'n hapus i barhau i weithio gyda phob grŵp yn yr ardal, mae modd cysylltu â mi drwy'r dulliau canlynol ...

Ffôn: 01690 750 246

Ffôn Symudol: 07900 286 825

E-bost: cllr.liz.roberts@conwy.gov.uk

Peidiwch ag oedi rhag cysylltu gyda mi.

Diolch yn fawr iawn ichi, Liz



EGLWYSI UNEDIG MORIAH A BRYN MAWR

Mae'r Aelodau wedi cael cyfle yn ystod y mis i gyfrannu tuag at sefyllfa enbyd Wcráin. Mae'r casgliad yn parhau ar agor i aelodau, neu i unrhyw un yn y pentref fyddai'n hoffi cyfrannu. Cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd, **Gwyn Roberts** 01690750331 neu'r Trysorydd **Hilda Rowlands** 01690750341. Diolch yn fawr.

SGIP CYMUNEDOL DOLWYDDELAN Wythnos gyntaf mis Awst

Edrychwch allan am bosteri o gwmpas y pentref yn agosach at yr wythnos gyda'r union amser.



Cyngor Cymuned Dolwyddelan a Menter Siabod sy'n talu am y sgiplau cymunedol, nid ein hawdurdod lleol. Mae'r cyfleuster i unrhyw un o Bont-y-Pant at y Bont Rufeinig, ond gan ei fod bob tro yn cael ei lenwi'n sydyn, gofynnwn ichi ddod â dim ond un llond car yn unig.